# Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009

**2009 mccc 3**

## 1 Hybu disgyblion mewn ysgolion a gynhelir i fwyta ac yfed yn iach

(1) Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau i hybu disgyblion cofrestredig ysgolion a gynhelir yn ei ardal i fwyta ac yfed yn iach.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gymryd camau i hybu disgyblion cofrestredig yr ysgol i fwyta ac yfed yn iach.

(3) Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn rhaid i awdurdod lleol a chorff llywodraethu roi sylw i ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru—

(a) ynghylch beth mae bwyta ac yfed yn iach yn ei olygu,

(b) ynghylch y camau priodol i'w cymryd er mwyn hybu bwyta ac yfed yn iach,

(c) ynghylch sut y mae egwyddorion datblygiad cynaliadwy i fod yn gymwys mewn perthynas â hybu bwyta ac yfed yn iach.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 12(3)**

**I2** A. 1 mewn grym ar 2.9.2013 gan O.S. 2013/1985, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, Adran 1.